Newyddion Gŵyl Gorawl

Gogledd Cymru Stena Line

Rhifyn 12 - Awst 2011

Cyhoeddi Noddwyr Newydd

Mae Gŵyl Gorawl Gogledd Cymru yn falch o gyhoeddi 2 noddwr newydd i'r digwyddiad ar gyfer 2011 a hefyd Categori Agored newydd.

Bydd Gwesty'r **St George's Hotel**, Gwesty 4 seren Gogledd Cymru, yn noddi'r categori Siop Barbwr yn nigwyddiad eleni. I gael mwy o wybodaeth, ymwelwch â www.stgeorgeswales.co.uk neu ffoniwch 01492 877544.

Bydd **Lyn Oakes Traditional Clothing** yn noddi'r categori Corau Meibion.

Mae Lyn Oakes yn fusnes teuluol traddodiadol. Dros y blynyddoedd, mae'r cwmni wedi datblygu enw da am ansawdd ei dillad ac effeithlonrwydd cyfeillgar ei wasanaeth. I gael mwy o wybodaeth, ymwelwch â www.lynoakes.co.uk neu ffoniwch 01299 827360.

Y Categori Agored NEWYDD

Mae **Cyngor Tref Llandudno**, cefnogwr ffyddlon gŵyl gorawl Gogledd Cymru, yn falch o fod yn noddi'r categori newydd cyffrous hwn yn nigwyddiad eleni.

Mae'r Cyngor Tref yn ymwneud â llawer o ddigwyddiadau lleol a gynhelir yn Llandudno bob blwyddyn ac yn trefnu arddangosfa tân gwyllt y flynyddol. Mae'r digwyddiad eleni yn cael ei chynnal ar ddydd Sadwrn 5 Tachwedd, 2011 yn ystod Gŵyl Gorawl Gogledd Cymru, gan ddarparu gwledd i'r rhai sy'n mynychu'r ŵyl a chystadleuwyr. I gael mwy o wybodaeth, ymwelwch â www.llandudno.gov.uk neu ffoniwch 01492 879130.

Llwyddiant yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen

Rydym yn falch o gyhoeddi bod 2 gôr o Ŵyl Gorawl Gogledd Cymru 2010 wedi hawlio gwobrau ar y llwyfan rhyngwladol. Daeth Chorus Amici yn ail yn y categori Côr Siambr ac enillodd yr Affinity Show Choir y categori Siop Barbwr/ Harmoni Clos. Aeth y ddau ymlaen i gystadlu yng nghystadleuaeth Côr y Byd.

Llongyfarchiadau!

Cofrestru - Pe hoffai eich côr gystadlu yng Ngŵyl eleni, ewch i'n gwefan **www.gwylgorawlgogledd cymru.co.uk** i lawr lwytho ffurflen gais a'r rheolau neu e-bostiwch **northwaleschoralfestival @conwy.gov.uk** neu ffoniwch **01492 575943/8** i ofyn am becyn cais.

Tocynnau - Ar gael ar gyfer y gystadleuaeth yn y dydd ar ddydd Sadwrn 5 Tachwedd o 10am tan 5pm a dydd Sul 6 Tachwedd o 12pm tan 4pm. Ar gael am bris rhesymol o £5 i oedolion a £2.50 i blant (dan 18).

Cyngerdd - Gyda Faryl Smith a gyrhaeddodd rownd derfynol Britain's Got Talent a'r artistiaid gwadd, y pedwarawd llinynnol Raven, dydd Sadwrn 5 Tachwedd (8pm). Tocynnau £15. Bydd corau sy'n cymryd rhan yn y gystadleuaeth yn cael prynu tocynnau am £10 ac yn cael cod gostyngiad ar ôl cwblhau'r broses gais.

Mae tocynnau ar gael o swyddfa docynnau Venue Cymru ar 01492 872000.



Conwy County Borough Council

Stena Line

Cyfarfod y Beirniaid

Mae'n bleser gan Ŵyl Gorawl Gogledd Cymru gyhoeddi 2 o'r beirniaid a gadarnhawyd ar gyfer 2011

Roedd **Mervyn Cousins** yn ddisgybl ac yn aelod o Gôr Eglwys Gadeiriol yn Ysgol y Gadeirlan, Southwell, Swydd Notingham ac yna darllenodd Gerddoriaeth (BMus ac MMus) yng Ngholeg Brenhinol Holloway, Prifysgol Llundain, lle'r oedd yn Ysgolhaig ar yr Organ. Enillodd wobrau yn y Brifysgol ac yn arholiadau Coleg Brenhinol yr Organyddion.

Ar ôl dysgu yn Llundain, a chael ei benodi i chwarae'r organ yn Eglwys St Bride's, Fleet Street a St James', Gerddi Sussex, penodwyd Mervyn yn Gyfarwyddwr Cerdd Cynorthwyol yn Eglwys Gadeiriol Edmundsbury yn 1987, lle ddaeth yn Gyfarwyddwr Cerdd yno yn 1993.

Roedd Mervyn yn Gyfarwyddwr Cerdd yn yr Eglwys Gadeiriol Metropolitan o 1997 tan haf 2003, ac roedd hefyd yn Organydd i Brifysgol Lerpwl yn ystod y cyfnod hwn. Roedd yn Gyfarwyddwr Cerdd ac yna'n Brif Weithredwr ar Eisteddfod Gerddorol Gydwladol fyd-enwog Llangollen rhwng mis Medi 2003, a mis Gorffennaf eleni. Mae bellach yn cyfuno gwaith arholi a beirniadu gartref a thramor gyda phrosiectau cyfarwyddo corau mewn ysgolion.

Chris Mallinson yw sylfaenydd, Cyfarwyddwr Cerdd a'r grym y tu ôl i'r byd-anenwog Choros Amici. Mae'r mab i bianydd band dawns yn cyfuno ei gefndir cerddorol a'i hyfforddiant drama yn ei 'waith o ddydd i ddydd' fel Pennaeth Celfyddydau Perfformio yn Ysgol William Allitt yn Swydd Derby, Lloegr.

Mae Chris wedi gweithio'n rheolaidd gyda nifer o gorau uchel eu parch ac mae galw mawr amdano fel hyfforddwr corau a 'sortiwr' grwpiau corawl o wahanol arddulliau, o ensembles i bedwarawdau a chorysau Siop Barbwr.

Mae Chris wedi beirniadu mewn gwyliau corawl mawreddog gan gynnwys 'Côr y Flwyddyn' ac yn dilyn llwyddiant rhyngwladol Choros Amici, mae wedi dechrau mentro ymhellach i ffwrdd i feirniadu mewn gwyliau yn Ewrop.

Mae yma yn Llandudno ar ôl ennill y gystadleuaeth gyffredinol gyda'i gorau oedolion 'rheolaidd' (Friday Voices yn 2009 a Choros Amici yn 2010), gan obeithio efallai y bydd hyn yn ei rwystro rhag dod a chôr arall i gystadlu yma!